



Case Study

Gwella Hygyrchedd mewn Digwyddiadau – Mewnwelediadau o Hyfforddiant PIWS

- **Dirpwyedig:** Lowri Morris | Rheolwr Gweithrediadau, Eisteddfod yr Urdd
- **Lleoliad:** Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanellwedd, Llanfair-ym-Muallt LD2 3SY
- **Cwrs:** Cwrs Hyfforddi 4-diwrnod Pencampwr PIWS
- **Dyddiad:** 26/02/2025



Cwrs Hyfforddi 4-diwrnod Pencampwr

Cefndir

Yn ddiweddar, mynychodd Lowri gwrs peilot 4 diwrnod PIWS ar hygyrchedd digwyddiadau. Gyda dros 14 mlynedd o brofiad yn gweithio i'r Urdd, mae Lowri wedi camu i rôl newydd fel Rheolwr Gweithrediadau ac roedd hi eisiau dysgu sut i wella hygyrchedd a chynhwysiant mewn gwyliau a digwyddiadau. Darparodd yr hyfforddiant fewnwelediadau gwerthfawr iddi i wella hygyrchedd cyffredinol yr Eisteddfod.

Cymhelliant dros Fynychu'r Hyfforddiant

Prif gymhelliant Lowri dros fynychu'r gweithdy oedd ennill gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach o sut i wneud digwyddiadau yn fwy cynhwysol. Roedd hi am nodi rhwystrau hygyrchedd, dysgu arferion gorau gan ddigwyddiadau mawr eraill, a gweithredu gwelliannau wrth gynllunio digwyddiadau. Ei nod oedd sicrhau bod pawb, waeth beth fo'u gallu, yn gallu cymryd rhan lawn yn y profiad o fynychu'r ŵyl.

Prif Gasgliadau o'r Hyfforddiant

Un o'r agweddau mwyaf gwerthfawr ar yr hyfforddiant oedd y cyfle i rwydweithio gyda digwyddiadau mawr eraill, megis y Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol. Roedd hyn yn ddefnyddiol iawn gan nad yw digwyddiadau mawr yn aml yn cael y cyfle i gydweithio, gan allu rhannu'r arferion gorau a gwaethaf. Trwy drafodaethau, enillodd Lowri fewnwelediadau i ofynion cyfreithiol hygyrchedd, strategaethau ar gyfer cynllunio safleoedd yn well, a dulliau i wella polisïau hygyrchedd a sut i'w gweithredu ar y safle. Pwysleisiodd yr hyfforddiant hefyd bwysigrwydd cyfathrebu'n glir am fesurau hygyrchedd i fynychwyr a staff.

Effaith ar Ymagwedd tuag at Hygyrchedd

Mae'r wybodaeth a gafwyd eisoes wedi dechrau siapio ymagwedd Eisteddfod yr Urdd tuag at hygyrchedd. Nodwyd y gwelliannau allweddol canlynol:

- **Gwelliannau i Ddyluniad y Safle:** Addasu'r safle'n flynyddol i wella hygyrchedd.
- **Gwell Cyfathrebu:** Sicrhau bod cynnwys digidol, gan gynnwys y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol, yn hygyrch i bob defnyddiwr, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio darllenwyr sgrin.
- **Casglu Adborth:** Datblygu ffurflenni adborth manwl sy'n canolbwyntio ar hygyrchedd er mwyn casglu data ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

Meysydd a Nodwyd ar gyfer Gwelliant

Amlygodd yr hyfforddiant sawl maes allweddol oedd angen sylw ar unwaith:

- **Hygyrchedd y Wefan:** Yr angen i adolygu'r wefan er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â chanllawiau hygyrchedd gwe, gan roi sylw arbennig i ffeiliau PDF, testun amgen ar gyfer delweddau, a chydawnsedd gyda darllenwyr sgrin.
- **Hyfforddiant Gwirfoddolwyr:** Ehangu hyfforddiant hygyrchedd i wirfoddolwyr y tu hwnt i'r sesiwn fer cyn y digwyddiad, i sicrhau eu bod yn gwbl barod i gefnogi mynychwyr ag anghenion amrywiol.
- **Cynnwys Digidol a Chyfyngau Cymdeithasol:** Sicrhau bod pob cynnwys digidol sy'n ymwneud â'r digwyddiad yn hygyrch, gan gynnwys fideos gydag is-deitlau a dogfennau hygyrch

Gwerth Cydweithio o fewn y Diwydiant

Bu'r cyfle i ymgysylltu â digwyddiadau mawr eraill yng Nghymru yn arbennig o fuddiol. Caniataodd yr hyfforddiant i Lowri a'i thîm gyfnewid syniadau, rhannu heriau, ac archwilio atebion gyda'i gilydd. Er enghraifft, trwy drafod problemau gyda rampiau hygyrchedd gyda threfnwyr digwyddiadau eraill, datblygwyd atebion ymarferol a fydd yn arbed amser ac adnoddau.

Gweithredu Strategaeth Hygyrchedd

Gan edrych i'r dyfodol, mae Eisteddfod yr Urdd yn bwriadu gweithredu strategaeth hygyrchedd strwythuredig, gan gynnwys:

- **Asesu'r mesurau hygyrchedd presennol** er mwyn adeiladu ar gryfderau a mynd i'r afael â gwendidau.
- **Pennu nodau clir a chyraeddadwy** o fewn cyfyngiadau cyllidebol, gan weithio tuag at strategaeth hirdymor dros dair i bum mlynedd.
- **Blaenoriaethu hyfforddiant staff a gwirfoddolwyr** er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth o hygyrchedd wedi'i wreiddio ym mhob lefel o gynllunio'r digwyddiad.
- **Gwella cyfathrebu cyhoeddus** i sicrhau bod mynychwyr yn gwbl ymwybodol o'r nodweddion hygyrchedd sydd ar gael.

Buddion Uniongyrchol ac Effeithiau Disgwyliedig

Er nad yw canlyniadau uniongyrchol wedi'u gweld eto, mae Lowri yn rhagweld effeithiau cadarnhaol hirdymor, gan gynnwys:

- **Mwy o ymgysylltiad gyda'r gymuned hygyrchedd**, gan gryfhau enw da'r Eisteddfod fel digwyddiad cynhwysol.
- **Perthnasoedd cyhoeddus cryfach** drwy ddangos ymrwymiad i welliannau hygyrchedd.
- **Mecanweithiau adborth gwell** er mwyn mesur effeithiolrwydd y mentrau hygyrchedd.

Anghenion Cefnogi a Hyfforddi Pellach

Er mwyn parhau i wella, mynegodd Lowri ddiddordeb mewn hyfforddiant pellach ar:

- **Hygyrchedd Digidol:** Dysgu sut i optimeiddio gwefannau a chynnwys digidol ar gyfer hygyrchedd llawn.
- **Cydymffurfiaeth Gyfreithiol:** Aros yn gyfredol gyda gofynion cyfreithiol sy'n newid er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth llawn.
- **Gweithdai Hygyrchedd ar gyfer Digwyddiadau:** Ennill mewnwelediadau dyfnach i ddylunio digwyddiadau hygyrch, gan gynnwys trefniadau eistedd, arwyddion, a chyfleusterau cynhwysol ar y safle.

Casgliad

Mae'r hyfforddiant PIWS wedi bod yn allweddol wrth helpu i lunio dull Eisteddfod yr Urdd o ran hygyrchedd yn y dyfodol. Trwy gydweithio yn y diwydiant, cynllunio strategol, a gwella'n barhaus, mae'r sefydliad yn anelu at greu profiad gŵyl gynhwysol i bawb sy'n mynychu. Mae Lowri yn cydnabod gwerth cael Swyddog Hygyrchedd ac yn pwysleisio pwysigrwydd dysgu a gweithredu parhaus i sicrhau bod hygyrchedd yn parhau i fod yn ffocws canolog wrth gynllunio digwyddiadau.

www.piws.co.uk